No.

# PWYLLGOR PENODI UWCH REOLWYR

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 12 Hydref, 2021.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd N. Moore (Cadeirydd); Cynghorydd L. Burnett (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr R. Crowley, S.M. Hanks a J.W. Thomas.

447 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

448 COFNODION –

PENDERFYNWYD – YMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2019 fel cofnod cywir.

449 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

450 TREFNIADAU RECRIWTIO A DEWIS AR GYFER Y PENNAETH CYLLID / SWYDDOG ADRAN 151 (RG) –

Dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr, wrth gyflwyno'r adroddiad, ei fod yn cynnwys manylion y trefniadau recriwtio a dethol a gynigiwyd ar gyfer swydd Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151. Roedd disgwyl i ddeiliad presennol y swydd roi'r gorau iddi ddechrau wythnos gyntaf Rhagfyr 2021 ac ychwanegodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod gwybodaeth atodol yn ymwneud â'r Disgrifiad Swydd a'r Fanyleb Person ar gyfer y swydd wedi'i dosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor a'i lanlwytho i wefan y Cyngor cyn y cyfarfod.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor ddirprwyo'r cyfrifoldeb am gytuno ar y canlynol i'r Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Gyfarwyddwr ac Arweinydd y Cyngor:

- Hysbysebu;
- Creu rhestr hir ar gyfer unrhyw broses asesu;
- Creu rhestr fer ar gyfer y cyfweliad terfynol gyda Phwyllgor Penodi'r Uwch-reolwyr.

Yn dilyn ymholiad gan y Cynghorydd Hanks ynglŷn ag agwedd y rôl fel Uwch-Berchennog Risg Gwybodaeth y Cyngor, eglurodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod y ddyletswydd hon wedi bod yn rhan o rôl y Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 am dros chwe blynedd, yn atebol am reoli'r risgiau i'r sefydliad mewn perthynas â mynediad diawdurdod at ddata.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor i gloi ei fod o'r farn bod y cynigion yn ffordd synhwyrol ymlaen, a gefnogwyd gan bawb a oedd yn bresennol.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, y wybodaeth ategol a'r materion a'r goblygiadau a gynhwyswyd ynddo, aeth y Pwyllgor ymlaen i

PENDERFYNWYD –

(1) Y DYLID cymeradwyo'r trefniadau recriwtio a dethol, y Disgrifiad Swydd a'r Fanyleb Person.

(2) Y DYLID rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol, mewn ymgynghoriad â Rheolwr Gyfarwyddwr ac Arweinydd y Cyngor, i fwrw ymlaen gyda:

- Hysbysebu'r Swydd;
- Datblygu'r trefniadau angenrheidiol ar gyfer creu rhestr hir ac unrhyw asesiad angenrheidiol o ymgeiswyr cyn creu rhestr fer;
- Llunio rhestr fer derfynol ar gyfer cyfweliad (cynhelir y cyfweliad terfynol gan gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol); a
- Cytuno ar gostau a'r gofynion o ran adnoddau sy'n ymwneud â'r prosesau sydd eu hangen i fynd â'r broses recriwtio a dethol ymlaen.

<u>Rhesymau dros benderfyniadau</u>

(1) Sicrhau bod y penodiad yn cael ei fwrw ymlaen yn unol â gofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

(2) Caniatáu i faterion gael eu datblygu cyn cam olaf y broses recriwtio.